**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

**Cofnodion ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30 a.m. ddydd Mercher 24 Mawrth 2021 drwy Zoom

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd) | Arwel Ellis Owen |
| Tony Ball | Matthew Peake |
| Pam Berry | Victoria Provis |
| Andrew Curl | Dr Stuart Robb |
| Tania Davies | Geraint Roberts |
| Margaret Evans | Nigel Roberts |
| Eifion Griffiths | Dr Liz Siberry |
| Yr Athro Medwin Hughes | Maria Stedman |
| Dr Conny Matera Rogers | Dr Kerry Tudor |
| | Deris Williams |

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Tammy Bowie
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol

Geraint Flowers, Pennaeth Gweithredol Prosiectau Cyfalaf (ar gyfer eitem 21.16)

Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.16<br>Cyflwyniad gan Dr Conny Matera-Rogers a Matthew Peake | DERBYNIODD y Cynghorau gyflwyniad gan Dr Conny Matera-Rogers a Matthew Peake ar ddatblygiadau ar gampysau Llundain a Birmingham.<br><br>Adroddodd Dr Matera-Rogers fod campysau Llundain a Birmingham yn rhan ganolog o PCYDDS ac yn cyfuno'r gorau o gryfderau sefydliadol cydnabyddedig prifysgol draddodiadol â hyblygrwydd ac ystwythder SAU yn y sector preifat. Amlinellodd y cynnydd a wnaethpwyd o ran recriwtio ers sefydlu'r ddau gampws. Roedd y cyflwyniad hefyd yn cynnwys negeseuon gan fyfyrwyr gan roi cipolwg ar y profiadau trawsffurfiol roeddent wedi'u cael.<br><br>Amlinellodd Pennaeth Gweithredol Prosiectau Cyfalaf gynlluniau ar gyfer adleoli campws Llundain a fyddai'n cyfoethogi profiadau myfyrwyr ymhellach. | |
| 21.17<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | DERBYNIODD y Cynghorau ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rowland Jones. | |
| 21.18<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO082). | |
| 21.19<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 | CADARNHAODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 28 Ionawr 2021 fel cofnod cywir (JCO083). | |
| 21.20<br>Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD y Cynghorau'r tabl pwyntiau gweithredu a gwblhawyd (JCO084). | |
| 21.21<br>Adroddiad Cadeirydd y Cyngor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO085).<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar gyfarfod y CUC sydd ar ddod, y byddai'n rhoi adroddiad arno yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. | |
| 21.22<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO086).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y materion canlynol:<br><br><u>Covid 19</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yng ngoleuni'r ansicrwydd parhaol ynghylch y pandemig, yn anffodus roedd y Brifysgol wedi penderfynu gohirio'r seremonïau graddio a gynlluniwyd am fis Gorffennaf 2021. Byddai cyflawniadau'n cael eu nodi gyda chyfres o ddathliadau ar-lein, gyda'r bwriad o gynnull seremonïau yn y flwyddyn academaidd nesaf pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny.<br><br>Roedd y Brifysgol wedi cychwyn adolygiad mewnol o'r prosesau a'r strwythurau yr oedd wedi'u datblygu dros y 12 mis diwethaf wrth iddi ymateb i Covid-19. Ystyrid hyn yn ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' a fyddai'n caniatáu cyfle cynhwysol i reolwyr, staff, Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr undebau adfyfyrio'n feirniadol ar gyfnod oedd mor anodd. Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Cynghorau.<br><br><u>Datblygiad Glannau SA1</u><br>Roedd PCYDDS wedi rhyddhau hysbysiad cwblhau ffurfiol i bartner y cyd-fenter. Canlyniadau trafodaethau cyfredol fyddai'n pennu'r camau nesaf.<br><br><u>Prifysgol De Cymru</u><br>Roedd swyddogion yn parhau i ddatblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer y cydweithrediad a byddai Grŵp Datblygu'r llywodraethwyr yn cael ei gynnull cyn bo hir.<br><br><u>Yr Egin – Cyllid y Fargen Ddinesig</u><br>Roedd trafodaethau i gwblhau Cytundeb Cyllido Cam 1 yr Egin bellach wedi gorffen. Byddai'r cyllid yn cael ei strwythuro fel grant ac roedd ei ryddhau'n ddibynnol ar gonsesiwn pridiant cyfreithiol dros yr asedau a gyflwynir gan y grant. Roedd hyn yn arfer safonol ar gyfer grantiau datblygu eiddo ond wedi'i gymhlethu rywfaint gan y pridiant cyfreithiol cyfredol. Roedd swyddogion bellach yn symud ymlaen gyda datblygu Achos Busnes Cam 2 i'w lunio yn unol â chanlyniadau'r astudiaeth o alw yn y sector creadigol. Disgwylid i'r Achos Busnes diwygiedig gan ei gyflwyno yn yr haf 2021.<br><br><u>Matrics Arloesi</u><br>Roedd cais cynllunio'r Matrics Arloesi yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen a byddai'n cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2021. Bydd hyn yn caniatáu i'r Brifysgol sicrhau ei hymrwymiadau darparu, wrth aros am yr adolygiad llwyddiannus o'r portffolio cyfan. Roedd trafodaethau'n parhau gyda CDA ynghylch cydweithio pellach i gynyddu effaith a sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddwyn ymlaen yn briodol.<br><br><u>Diffiniad gweithredol IHRA o wrthsemitiaeth</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth aros am drafodaethau yn y sector, byddai Senedd PCYDDS yn ystyried mabwysiadu'n ffurfiol ddiffiniad Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) o wrthsemitiaeth a byddai'n gwneud argymhelliad i'r Cyngor yn unol â hynny.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y newidiadau strwythurol arwyddocaol o fewn PCYDDS gan nodi ei sefyllfa gref i fynd â chyfleoedd newydd creadigol ac yn gysylltiedig â sgiliau yn eu blaenau. Nododd yr anawsterau a'r tarfu a achoswyd gan y pandemig a diolchodd i'r staff am eu hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. | |
| 21.22<br>Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2019/20 | DERBYNIODD y Cynghorau Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2019/20, sydd i'w gyhoeddi ar 31 Mawrth 2021 (JCO087).<br><br>Nododd CGAD fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr holl staff a myfyrwyr. Roedd yn sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac yn helpu swyddogion i oruchwylio a monitro cynnydd o ran gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Brifysgol. | |
| 21.23<br>Rheoli Risg | YSTYRIODD y Cynghorau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (JCO088).<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at y cynnydd yn sgôr risg Llywodraethu yn dilyn gwelliant, y gofynnwyd amdano gan y Cynghorau, i adlewyrchu'r risg yn gysylltiedig â chynllunio olyniaeth. Roedd y risg yn parhau i fod o fewn y goddefiant risg.<br><br>Tynnodd y Clerc sylw at y risg gyffredinol yn gysylltiedig â phandemig Covid. Roedd cyfeiriadau at Covid o fewn risgiau eraill hefyd er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd allanol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, CYTUNODD y Cynghorau y dylai'r risg yn gysylltiedig â chynnydd posibl mewn cyfraniadau pensiwn gael ei chynnwys ar y gofrestr risg oherwydd ei heffaith ar wargedion ariannol. | Clerc i'w chynnwys ar y gofrestr risg |
| 21.24<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf (JCO089). | |
| 21. 25<br>Datganiadau blynyddol PREVENT: Canlyniadau | DERBYNIODD y Cynghorau yr ymateb gan CCAUC i ddatganiadau blynyddol Prevent 2019/20 (JCO090). | |
| 21. 26 | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad Iechyd a Diogelwch (JCO091). | |

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad Iechyd a Diogelwch | | |
| 21.27<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 8 Gorffennaf 2021. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 11.45